

A fydd eich pensiwn chi'n ddigon?

Dysgwch sut y gallai Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol eich helpu i ymddeol yn gynnar, neu gyda mwy o arian



Mae Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol (AVCs) yn ffordd dreth-ffeithlon o arbed arian ar gyfer eich ymddeoliad. Mae AVC yn gronfa ychwanegol ochr yn ochr â'ch prif gynllun pensiwn. Pan fyddwch chi'n ymddeol, gallai AVC roi rhagor o ddewisiadau i chi na'ch pensiwn Llywodraeth Leol ar ei ben ei hun. Gall AVC eich helpu i:

- ✓ **Ymddeol yn gynnar:** a diogelu gwerth eich pensiwn Llywodraeth Leol.
- ✓ **Ymddeol gyda mwy o arian:** gwych os ydych chi wedi cael seibiant gyrfa, wedi dechrau gweithio i Lywodraeth Leol yn hwyrach mewn bywyd, neu os ydych chi eisiau rhoi hwb i'ch budd-daliadau ymddeol.

Rhesymau gwych dros ddechrau AVC Llywodraeth Leol

Manteisio ar ostyngiad yn y dreth

Mae AVCs yn elwa o ostyngiad yn y dreth, ac mae'n hawdd manteisio arnynt gan fod y gwaith i gyd yn cael ei wneud gan eich cyflogres. Mae'r cyfraniadau'n dod o'ch cyflog bob mis cyn iddo gael ei drethu. Os ydych chi'n drethdalwr ar y gyfradd safonol, bydd cyfraniad o £100 at eich cronfa AVC yn costio dim ond £80 i chi, oherwydd y bydd y £20 y byddech chi'n ei dalu mewn treth yn mynd i'ch cronfa AVC. Os ydych chi'n drethdalwr ar gyfradd uwch neu ar gyfradd ychwanegol, bydd y gost i chi hyd yn oed yn llai.

Mae AVCs yn hyblyg

Mae AVCs yn hyblyg er mwyn siwtio eich amgylchiadau; gallwch ddechrau eich cyfraniadau, rhoi'r gorau iddynt, eu haildechrau neu eu haddasu unrhyw bryd. Wrth gwrs, os ydych chi'n stopio talu cyfraniadau, neu'n eu lleihau, bydd hynny'n effeithio ar faint o arian fydd gennych chi yn y pen draw. Bydd ffioedd yn dal i gael eu didynnu hyd yn oed os byddwch chi wedi rhoi'r gorau i gyfrannu.

Buddsoddi syml

Fel y rhan fwyaf o gerbydau cynilion, mae AVCs yn seiliedig ar fuddsoddi, a gallwch chi reoli eich cynilion drwy ddewis lle rydych chi am eu buddsoddi. Gan ddibynnu ar eich cynllun, mae hyd at dri dewis buddsoddi

clir. Mae gwytodaeth, fideos ac adnoddau ar ein gwefan bwrpasol a all eich helpu i wneud penderfyniad rydych chi'n gyfforddus ag ef.

Hawlio eich AVC - bellach mae mwy o ffyrdd nag erioed o'r blaen

Mae sawl ffordd o hawlio eich cronfa AVC, a chi yn unig gaiff wneud y dewis hwnnw. Ar hyn o bryd, gallwch gael mynediad at eich cronfa AVC pan fyddwch yn cyrraedd 55 oed, naill ai ar yr un pryd â budd-daliadau eich Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS) neu yn gynharach pan fyddwch yn trosglwyddo i gynnyrch gwahanol (heb orfod hawlio na throsglwyddo eich prif bensiwn LGPS).

Un ffordd o hawlio eich cronfa AVC yw fel arian parod cwbl ddi-dreth. Mae modd gwneud hyn os yw'n cael ei hawlio yr un pryd â budd-daliadau'r prif gynllun cysylltiedig, ar yr amod nad yw cyfanswm y cyfandaliadau rydych chi wedi'u hawlio o'r LGPS yn fwy na 25% o werth cyfunol y budd-daliadau rydych chi'n eu hawlio o'r LGPS, gan gynnwys eich cronfa AVC.

Mae rhagor o wybodaeth am opsiynau eraill ar gyfer hawlio eich AVC ar y wefan bwrpasol hon: www.pru.co.uk/lgpschoices.

Mae'r dreth rydych chi'n ei thalu yn dibynnu ar eich amgylchiadau unigol chi. Efallai y bydd rheolau treth Cyllid a Thollau EM a'ch rheolau LGPS chi'n newid yn y dyfodol.

Adeiladu'ch AVC

Dewch i ni edrych ar Karen fel enghraifft o sut mae AVCs yn gweithio. Mae Karen yn 49 oed, ac mae hi'n bwriadu ymddeol yn 67. Pe bai Karen yn cyfrannu £125 y mis am y 18 mlynedd nesaf, faint fydd gwerth ei chronfa AVC?

Cost Wirioneddol	Gwerth Rhyddhad Treth	Potensial Tyfiant	Pot AVC
£21,600	£5,400	£12,100	£39,100

Mae'r ffigurau hyn yn seiliedig ar drethdalwr ar y gyfradd safonol. Mae gwerth arfaethedig y cynllun AVC yn seiliedig ar dwf o 5% bob blwyddyn ac ar Ffioedd Rheoli Blynnyddol o 1%. Nid yw chwyddiant wedi'i ystyried, ond bydd yn lleihau pŵer prynu yn y dyfodol. Gall y ffioedd amrywio a gallant fod yn uwch nag ydynt ar hyn o bryd. Dim ond enghraifft yw'r ffigurau hyn, ac ni ddylid dibynnu arnynt. Mae AVCs yn seiliedig ar fuddsoddiadau ac felly gall y gwerth ostwng yn ogystal â chynyddu, a gallech chi gael llai o arian yn ôl na'r hyn rydych chi wedi'i fuddsoddi.

Rhowch gynnig ar ein cyfrifiannell AVC yn www.pru.co.uk/calc i gael gwybod faint allech chi ei arbed.

Dydy hi ddim yn rhy hwyr i wneud gwahaniaeth

Yn yr enghraifft ddiwethaf, roedd gan Karen 18 mlynedd i fuddsoddi mewn AVC, ond beth os mai dim ond ychydig o flynyddoedd sydd ar ôl nes byddwch chi'n ymddeol? Dewch i ni weld faint gallech chi ei gynilo.

Gan edrych ar gyfanswm y cyfraniadau, byddai cynilo £250 y mis am 3 blynedd yn rhoi cronfa AVC gwerth £9,000 i chi. £7,200 fydd y gost i drethdalwyr ar y gyfradd sylfaenol, a byddai'r £1,800 yn cael ei ychwanegu fel gostyngiad yn y dreth. Os ydych chi'n drethdalwr ar y gyfradd uwch, y gost i chi fyddai £5,400, gyda £3,600 yn cael ei ychwanegu fel gostyngiad yn y dreth.

Mynd ati i weithredu

Os hoffech chi ddechrau AVC neu gynyddu eich cyfraniadau, ewch i www.pru.co.uk/lgpschoices.

Gallwch chi hefyd ffonio'r **Tim Ymddeoliadau Arbenigol** ar **0800 012 1378**. Ni fyddan nhw'n gallu rhoi cyngor, ond fe fyddan nhw'n gallu siarad â chi am eich sefyllfa ac ateb eich cwestiynau am yr AVC. Mae'r llinellau ar agor o ddydd Llun tan ddydd Gwener, 9am-6pm.



Mae eich LGPS hefyd yn cynnig Cyfraniadau Pensiwn Ychwanegol i chi, fel math arall o AVC. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â gweinyddwr eich cynllun neu ewch i www.lgpsmember.org (Cymru a Lloegr), www.scotlgps2015.org (Yr Alban), neu www.nilgosc.org.uk (Gogledd Iwerddon).



Prudential yw enw masnachu Prudential Distribution Limited. Mae Prudential Distribution Limited yn gofrestredig yn Yr Alban. Mae ei Swyddfa Gofrestredig yn Craigforth, Stirling, FK9 4UE. Rhif cofrestredig SC212640. Caiff ei awdurdodi a'i reoleiddio gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol.

Will your pension be enough?

Learn how Additional Voluntary Contributions could help you to retire early, or with more money.



Additional Voluntary Contributions (AVCs) offer a tax efficient way to save for your retirement. They are an additional pot alongside your main scheme pension. An AVC could give you more options when you retire than your Local Government pension on its own. AVCs could help you to:

-  **Retire early:** and protect the value of your Local Government pension.
-  **Retire with more money:** great if you've had a career break, started working for Local Government later in life, or simply want to boost your retirement benefits.

Great reasons to start a Local Government AVC

Take advantage of tax relief

AVCs benefit from tax relief, and it is easy to take advantage of as it's all done for you by your payroll. Contributions come from your salary each month before it's taxed. If you are a basic rate taxpayer, a £100 contribution to your AVC pot will only cost you £80, as the £20 you would pay in tax goes into your AVC pot instead. If you're a higher or additional rate taxpayer, the cost to you will be even less.

AVCs are flexible

AVCs are flexible in order to suit your circumstances; you can stop, restart or adjust your contributions at any time. Of course, if you do stop or reduce your contributions it will affect how much money you will eventually have. Charges will continue to be deducted even if you stop contributing.

Investing made easy

Like most savings vehicles, AVCs are investment based, and you can stay in control of your savings by choosing where they are invested. Depending on your scheme, there are up to three clear investment choices for you to select from. You can find information, videos and tools on our dedicated website that can help you to make a decision you are comfortable with.

Taking your AVC – now more ways than ever

There are a number of ways for you to take your AVC pot, and it is completely up to you which option you choose. Currently you can access your AVC pot from age 55, either at the same time as your Local Government Pension Scheme (LGPS) benefits or earlier if you transfer to a different product (without having to take or transfer your main LGPS pension).

One of the ways you can take your AVC pot is as 100% tax-free cash. You can do this if it is taken at the same time as linked main scheme benefits, as long as your total lump sums taken from the LGPS do not exceed 25% of the combined value of the benefits you take from the LGPS including your AVC fund.

To find out more about other options when it comes to taking your AVC, visit your dedicated website at www.pru.co.uk/lgpschoices.

The tax you pay depends on your individual circumstances. HM Revenue & Customs tax rules and your LGPS rules may change in the future.

Building up your AVC

Let's see how AVCs work by looking at the example of Karen. Karen is 49 years old, and plans to retire when she is 67. How much could Karen's AVC pot be worth if she contributes £125 per month for the next 18 years?



These figures are based on a basic rate taxpayer. The projected AVC plan value assumes growth of 5% each year and an Annual Management Charge of 1%. Inflation has not been considered, but it will reduce purchasing power in the future. Charges can vary and could be higher than they are now. Figures are for illustrative purposes only and are not guaranteed. AVCs are investment based so the value could go down as well as up and you could get back less than you put in.

Try our AVC calculator at www.pru.co.uk/calc to find out how much you could save.

It's not too late to make a difference

We just looked at the example of Karen who has 18 years to save into an AVC, but what if you're just a few years away from retirement? Let's take a look at how much you could build up.

Looking simply at how the contributions could add up, saving £250 a month for 3 years could give you an AVC pot of £9,000. The cost to you would be £7,200 if you are a basic rate taxpayer, with the additional £1,800 added in tax relief. If you pay tax at the higher rate the cost to you would be £5,400, with £3,600 added in tax relief.

Take action today

If you would like to start an AVC or increase your contributions visit www.pru.co.uk/lgpschoices.

You can also call the **Retirement Specialist Team on 0800 012 1378**. They can't give advice but they can talk to you about your own situation and answer questions you may have about the AVC. Lines are open Monday to Friday, 9am-6pm.



Your LGPS also offers you Additional Pension Contributions, as an alternative to AVCs. For more information, please contact your scheme administrator or visit www.lgpsmember.org (England and Wales), www.scotlgps2015.org (Scotland), www.nilgosc.org.uk (Northern Ireland).



Prudential is a trading name of Prudential Distribution Limited. Prudential Distribution Limited is registered in Scotland. Registered Office at Craigforth Stirling FK9 4UE. Registered number SC212640. Authorised and Regulated by the Financial Conduct Authority.